ADRAN HAWLIAU TRAMWY NODYN CYNGOR Rhif 7

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2001

MAYHEW v THE SECRETARY OF STATE FOR THE ENVIRONMENT LASHAM PARISH MEETING v HAMPSHIRE COUNTY COUNCIL

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn nodi dehongliad yr Arolygiaeth Gynllunio o ddyfarniadau *Mayhew*[1] a *Lasham*[2].

2. Mae'r Nodyn Cyngor hwn ar gael yn gyhoeddus. Nid oes iddo unrhyw rym cyfreithiol ac nid yw, ynddo'i hun, yn ddehongliad awdurdodol o'r gyfraith.

Cefndir

3. Ystyriodd dyfarniadau *Mayhew* a *Lasham* nifer o faterion yn ymwneud â gorchmynion o dan adrannau 53 a 54 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981"). Yn *Mayhew,* aed i'r afael â'r canlynol:

(a) A allai canfod tystiolaeth o dan adran 53(3)(c) o Ddeddf 1981 gynnwys tystiolaeth nad oedd yn dystiolaeth newydd ond yn hytrach yn dystiolaeth a oedd wedi cael ei chadw heb ei hystyried yn archifau awdurdod arolygu am gryn dipyn o amser;

(b) Pa un a oes disgresiwn o dan adran 53(2) o Ddeddf 1981 i beidio â gwneud gorchymyn i ddangos ffordd fel cilffordd sydd ar agor i bob traffig ar y sail nad yw'n addas i gerbydau er bod hawliau cerbydol wedi'u cadarnhau.

4. Yn nyfarniad *Lasham* aeth y llys i'r afael â'r pwyntiau canlynol:

(a) O dan adran 54(1) o Ddeddf 1981, pa un a oes gan awdurdod arolygu ddisgresiwn i beidio â gwneud gorchymyn i ddangos ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus fel cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig os dangoswyd bod hawl tramwy cyhoeddus i gerbydau yn bodoli, ar y sail bod y ffordd yn anaddas i gerbydau;

(b) Pa un a oes gan awdurdod arolygu hawl i drin gorchymyn a wnaed o dan adran 54(1) o Ddeddf 1981 fel gorchymyn nas gwrthwynebwyd pan fo'r unig wrthwynebiad iddo yn seiliedig ar ystyriaethau sy'n amherthnasol yn gyfreithiol.

Mayhew

1 *Mayhew v Secretary of State for the Environment [1992] 65 P a CR 344; [1993] JPL 831; [1993] COD 45*

[2] *Lasham Parish Meeting v Hampshire County Council [1992] 65 P a CR 3; 91 LGR 209; [1993] JPL 841*

ADRAN HAWLIAU TRAMWY NODYN CYNGOR Rhif 7

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2001

Yr Arolygiaeth Gynllunio 2 3ydd diwygiad Ebrill 2007

5. Yn achos *Mayhew* , yr her oedd i gadarnhad yr Ysgrifennydd Gwladol o orchymyn o dan adran 53 i ailddosbarthu tair ffordd a ddangoswyd fel llwybrau troed mewn map diffiniol fel cilffyrdd sydd ar agor i bob traffig. Bu'r dystiolaeth ddogfennol y dibynnwyd arni ar gyfer y gorchymyn yn archifau'r awdurdod arolygu mor bell yn ôl â 1952 pan gafodd y ffyrdd eu dosbarthu fel llwybrau troed yn wreiddiol, ond nid oeddent wedi cael eu hystyried gan yr awdurdod yn flaenorol.

6. Heriwyd y gorchymyn, yn gyntaf ar y sail nad oedd y dystiolaeth y dibynnwyd arni yn adran 53(3)(c) o Ddeddf 1981. Roedd yn rhaid iddi fod wedi bod yn dystiolaeth newydd nad oedd ar gael i'r awdurdod yn flaenorol er mwyn cael ei "chanfod".

7. Gwrthodwyd y ddadl hon. Mabwysiadodd y barnwr, Potts U, rannau o'r dyfarniad yn *R v Secretary of State for the Environment ex parte Simms and Burrows*[3] lle nodwyd y canlynol: “the word ‘discovery’ suggests the finding of some information which was previously unknown, and which may result in a previously mistaken decision being corrected”. Yn ogystal, mabwysiadodd Potts U y darn canlynol o Simms and Burrows: “In particular I am satisfied that section 53(3)(c), with its use of the word “discovery”, embraces the situation where a mistaken decision has been made and its correction becomes possible because of the discovery of information which may or may not have existed at the time of the definitive map”.

8. Ym marn y llys, yn *Mayhew,* ystyr “to discover” yw canfod neu ddod yn ymwybodol o rywbeth. Mae'r ymadrodd yn awgrymu proses feddyliol y canfyddwr yn cymhwyso ei feddwl at rywbeth nad oedd yn hysbys iddo yn flaenorol.

9. Heriwyd y gorchymyn hefyd ar yr ail sail, sef i'w effaith ymarferol gael ei anwybyddu. Byddai'r gorchymyn addasu yn agor y ffyrdd i yrwyr beiciau modur a cherbydau pedair olwyn a fyddai'n peri difrod i'w harwynebau ac yn beryglus i gerddwyr a marchogwyr.

10. O ran hyn, nododd y llys nad gwneud y cyfryw addasiadau sy'n ymddangos yn ddymunol yw'r pwer o dan adran 53(2) o Ddeddf 1981. Y pwer yw gwneud y cyfryw addasiadau sy'n ymddangos yn angenrheidiol o

ganlyniad i'r digwyddiadau yn isadran (3). Nodwyd bod adran 53 yn cyfyngu ar y canlynol:

"...the modifications which ought to be made in consequence of the occurrence of a relevant event to those which would give effect to the rights of way which were found to exist rather than those which might be thought suitable or desirable....The surveying authority's duty under section 53 is to ascertain public rights of way and to modify the map so that it correctly defines those rights; no more and no less".

3 *R v Secretary of State for the Environment ex parte Simms and Burrows [1991] 2 QB 354; [1990] WLR 1070; 3 All ER 490; 60 P&CR 105; 89 LGR 398; [1990] JPL 746*

ADRAN HAWLIAU TRAMWY NODYN CYNGOR Rhif 7

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2001

11. Lle bydd defnydd cerbydol o gilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig yn amhriodol yna efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried y defnydd o orchmynion traffig o dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984.

Lasham

12. Yn achos *Lasham* , gwnaeth yr awdurdod arolygu orchymyn o dan adran 54 (1) yn ailddosbarthu ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus fel cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig. Gwrthwynebwyd y gorchymyn gan gyngor plwyf ar y sail bod y ffordd yn anaddas i gerbydau modur ac y byddai cerbydau yn tarfu ar breswylwyr lleol, cerddwyr a beicwyr. Er gwaethaf y gwrthwynebiad hwn, roedd yr awdurdod arolygu wedi trin y gorchymyn fel un nas gwrthwynebwyd ac aeth ati i'w gadarnhau yn hytrach na'i gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w gadarnhau. Roedd yr awdurdod arolygu o'r farn bod y gwrthwynebiad yn amherthnasol gan ei fod a wnelo â materion amwynder yn unig ac y gellid, felly, ei ddiystyru. Heriwyd y gorchymyn ar y sail nad oes gan yr awdurdod unrhyw rym i'w gadarnhau gan iddo gael ei wrthwynebu.

13. Yn yr un modd ag y mae ystyriaethau amwynder yn amherthnasol i orchymyn o dan adran 53 (2) o Ddeddf 1981, roedd Potts U, a roddodd y dyfarniad yn achos Mayhew, o'r farn eu bod yn amherthnasol i orchymyn o dan adran 54(1). Yr unig fater yw pa hawliau tramwy cyhoeddus sy'n bodoli. Dywedodd:

"Section 54 must be given its natural meaning. It is concerned with status. It imposes on the surveying authority "a duty to reclassify roads used a public paths". The duty is mandatory...The section confers no discretion on the surveying authority to consider whether the way is suitable for vehicular traffic....Section 54 merely gives the surveying

authority the power to decide which of the three descriptions specified in subsection (2) should apply to the way in question given the requirements of subsection (3). Accordingly, if a public right of way has been shown to exist, the way must be reclassified as a byway open to all traffic."

14. O ran y mater a oedd yr awdurdod arolygu yn gywir i drin y gorchymyn fel un nas gwrthwynebwyd, roedd y llys o'r farn na fu'n gywir. Dylid bod wedi cyfeirio'r gorchymyn at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w gadarnhau er gwaetha'r ffaith bod y gwrthwynebiad yn seiliedig ar ystyriaethau amherthnasol yn ymwneud ag amwynder.

ADRAN HAWLIAU TRAMWY NODYN CYNGOR Rhif 7

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2001

15. Mae paragraff 7(1) o Atodlen 15 i Ddeddf 1981 yn darparu os caiff unrhyw gynrychiolaeth neu wrthwynebiad ei wneud ac na chaiff ei dynnu yn ôl yna bydd awdurdod arolygu yn cyflwyno gorchymyn i'r Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gadarnhad. Bydd gwrthwynebiad a wneir yn briodol yn un a wneir o fewn yr amser ac yn y modd a nodwyd yn Hysbysiad y Gorchymyn. Er bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i wrthwynebiadau gynnwys manylion y seiliau y dibynnir arnynt[4], nid yw'n nodi manylion y seiliau hynny er mwyn iddynt fod yn gyfystyr â gwrthwynebiad priodol. Felly nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru nac awdurdod arolygu hawl i ddiystyru gwrthwynebiad a wneir ar sail gyfreithiol amherthnasol (ond gweler paragraff 16 isod).

16. Pan wneir gwrthwynebiad yn y ffordd briodol, rhaid i'r awdurdod arolygu gyflwyno'r gorchymyn i'w gadarnhau i'r Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Pan gaiff gorchymyn ei gyflwyno yn y modd hwnnw, pa un a yw'r gwrthwynebiad yn amherthnasol ai peidio, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru drefnu ymchwiliad lleol neu roi cyfle i unrhyw unigolyn arall sydd wedi gwneud gwrthwynebiad gael ei wrando gan unigolyn a benodir ganddo (ond drwy rinwedd paragraff 7(2A) ac 8(3) o Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981[5] nid yw'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud hynny os, yn ei farn ef, nad yw unrhyw un o'r gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol yn ymwneud â mater y gellir ei ystyried wrth bennu a ddylid cadarnhau gorchymyn, naill ai gydag addasiadau neu heb addasiadau.

17. Aeth Potts U, ymlaen i esbonio bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i ystyried natur y gwrthwynebiad wrth benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawiad. Gallai'r ffaith bod gwrthwynebiad

yn amherthnasol lywio ei benderfyniad o ran pa weithdrefn i'w mabwysiadu. Byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl hefyd i ofyn i'r sawl sy'n gwneud y gwrthwynebiad a oeddent yn dymuno parhau â'r gwrthwynebiad neu ei dynnu yn ôl a rhoi'r cyfle iddynt addasu'r seiliau. Byddai ganddo hefyd yr hawl i atgoffa'r gwrthwynebydd o'r pwer i ddyfarnu costau o dan baragraff 9 o Atodlen 15 i Ddeddf 1981.

18. Mae paragraff 7(2) o Atodlen 15 i'r Ddeddf uchod yn rhoi cyfle i unrhyw unigolyn a wnaeth gynrychiolaeth neu wrthwynebiad priodol na chafodd ei dynnu yn ôl gael ei wrando gan unigolyn a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r perwyl hwnnw. Felly, mae'r Arolygiaeth o'r farn y dylid trin llythyrau cynrychiolaeth a wnaed yn briodol, sydd hefyd yn cynnwys llythyrau o gefnogaeth, yn yr un modd â llythyrau gwrthwynebiad a wnaed yn briodol.

[4] Paragraffau 3(1)(c) ac 8(2)(a) o Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel yr ychwanegwyd gan baragraffau 11(2) ac 11(7)(a) o Atodlen 5 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 2000).

[5] Fel yr ychwanegwyd gan Baragraff 11(5) a (7) o Atodlen 5 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

ADRAN HAWLIAU TRAMWY NODYN CYNGOR Rhif 7

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2001

Casgliadau

19. Mae adrannau 53 a 54 o Ddeddf 1981 yn ymwneud â statws hawliau tramwy. Mae dadleuon o ran pa hawliau tramwy penodol sy'n ddymunol neu'n addas yn amherthnasol i orchmynion o dan yr adrannau hynny. Dylai arolygwyr nodi hyn yn eu sylwadau agoriadol mewn ymchwiliadau, ac er bod gan wrthwynebwyr yr hawl i gael eu gwrando, dylid eu hatgoffa efallai y bydd goblygiadau cost yn sgîl ailadrodd dadleuon amherthnasol o'r fath wrth roi tystiolaeth.

20. Mae tebygrwydd rhwng yr iaith statudol a ddefnyddir yn Atodlen 15 i Ddeddf 1981 a'r iaith sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau gorchmynion llwybrau cyhoeddus (paragraffau 1 a 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Priffyrdd 1980) a gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Atodlen 14 i'r Ddeddf honno). O ganlyniad, i ryw raddau caiff dyfarniad *Lasham* ei gymhwyso yn yr achosion hynny gan baragraffau 8 a 9 o Atodiad A i Gylchlythyr 2/93 Adran yr Amgylchedd (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)/Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 5/93. Mae'r paragraffau yn nodi:

If duly made objections are not withdrawn, the order must be referred to the Secretary of State (but see paragraph 3 of Annex C for further clarification, with regard to public path orders). The authority has no

locus to determine whether or not the grounds of the objection or representation are relevant.....the Secretary of State will look carefully at the objections and may give an objector the opportunity to modify grounds of objections where he considers these are not legally relevant....However he has no power, if the objection is not modified or withdrawn, to determine the order without giving the objector an opportunity of being heard.

21. Mewn perthynas â gorchmynion llwybrau cyhoeddus, mae paragraff 3 o Atodiad C i'r Cylchlythyr yn nodi bod gan awdurdodau'r disgresiwn yn ôl pob tebyg i beidio â pharhau â gorchmynion a wrthwynebir ac felly gallant ddwyn y weithdrefn i ben yn lle gorfod cyfeirio'r gorchymyn at yr Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gadarnhau.

22. Mae Pennod 7 o ganllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio *Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus* a *Gorchmynion Map Diffiniol* yn cynnwys cyngor ar ddyfarnu costau pan ymdrinnir â gwrthwynebiadau amherthnasol mewn ymchwiliadau.